Awgrymiadau a chamgymeriadau cyffredin wrth geisio am grant

Awgrymiadau

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen yr ydych yn ymgeisio iddi.
- Gwnewch yn siŵr fod eich prosiect yn addas ar gyfer y rhaglen grant yr ydych yn ymgeisio iddi.
- Gofynnwch a oes dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. .
- Darllenwch y pecyn cais a'r nodiadau arweiniad yn ofalus.
- Siaradwch â rhywun o'r sefydliad ariannu cyn i chi ymgeisio - mae'n hollbwysig i chi wneud hyn os oes gennych unrhyw bryderon neu os nad ydych yn deall unrhyw ran o'r pecyn cais.
- Amgaewch yr holl ddogfennau cefnogi sy'n ofynnol gyda'ch cais, megis eich cyfansoddiad, manylion cyfrif banc, cyfrifon blynyddol a gwnewch yn si_r fod enw'r grŵp wedi ei gynnwys ar bob un. Keep a copy of the application form so that you can answer questions about it when it is assessed.
- Gofynnwch i sefydliad cynorthwyol ddarllen eich cais a gwneud yn siŵr ei bod yn deall eich prosiect cyn i chi ei yrru i mewn.
- Cadwch gopi o'r ffurflen gais fel y gallwch ateb cwestiynau amdano pan gaiff ei asesu.

Camgymeriadau cyffredin

- Cwblhau'r ffurflen gais heb ddarllen drwy'r holl becyn cais a gwneud yn siŵr eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol.
- Peidio â gwneud copi o'ch cais ar gyfer eich cofnodion eich hun
- Cyflwyno gwaith papur ychwanegol sydd ddim yn berthnasol i'ch cais.
- Cyflwyno cyllideb prosiect afrealistig. Dylech ymchwilio bob cost cyn ymgeisio.
- Anghofio i wneud yn siŵr y gellir cysylltu â rhywun o'r grŵp yn ystod oriau swyddfa.
- Peidio â darparu'r holl lofnodion sy'n angenrheidiol yn y cais.